Cyngor Cymuned 18 Chwefror 2016 Capel Tabor

Presennol : Islwyn Jones, Morgan Morgans, Huw Griffith, Peter Tandy

Ymddiheuriadau: Lyn Davies

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Ionawr 22, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Gohebiaeth

1. Cais, uniaith Saesneg, oddi wrth Mark Williams i arddangos poster ei surgeries. Wedi ateb yn gofyn am ohebiaeth yn Gymraeg neu ddwy-ieithog.
2. Llythr wrth Gyngor Sir Ceredigion ynglyn â 'Chynllun Mabwysiadu Llwybr'. Nid oedd y Cyngor yn awyddus i gymryd rhan yn y cyllun.
3. Ymgynghori ar Amcanion Gwella 2016/17. Llanwyd y ffurflen ymateb, a'i dychwelyd.
4. Cyngor Sir yn gofyn am Ddatganiad o Ddiddordeb mewn cymryd drosodd Canolfan Hamdden Tregaron. Nid oedd gan y Cyngor ddiddordeb.
5. Holiadur cysgodfan bysiau. Astudiwyd y Pro Fforma, a llanw'r ffurflen yn ôl gwybodaeth leol y Cynghorwyr.
6. Llythr diolch wrth y Cylch Meithrin, ac wrth y cyn-glerc.
7. Llythr wrth HMRC ynglyn â chyfrifon diwedd blwyddyn. Rhoddwyd caniatad i'r clerc i ofyn am gyngor ar sut i gwblhau'r gofynion.

Materion Ariannol

Derbyniwyd cais am arian oddi wrth Tenovus, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a'r Ddolen. Rhain i'w hystyried yn nes ymlaen.

Cyfriflen Banc yn dangos £2098.75, Ond ers hynny mae £842.71 wedi mynd allan, yn gadael £1256.04. Cyfrif rhif 2 £8026.48

Un Llais Cymru. Awdurdodwyd talu £72 tâl aelodaeth am y flwyddyn 2016/17. Hefyd talu £25 i'r Neuadd a £37.25 i Gapel Tabor am ddefnydd o ystafell ar gyfer cyfarfod, a £99.55 ar gyfer treuliau clerigol.

Penderfynnwyd ar y rhoddion fydd yn cael eu dosbarthu eleni; -

O gyllid y Cyngor Cymuned – (S137)

Neuadd Santes Ursula - £500
Y Ddolen - £100
Clybiau Ffermwyr Ieuanc Ceredigion - £100

Ambiwlans Awyr Cymru - £100
Ni chymerwyd rhan yn y dosbarthu gan unrhyw Gynghorwr oedd â diddordeb personnol yn un o'r Mudiadau.

O gyfrif rhif 2 –

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangwyryfon | - £900 |
| Neuadd Santes Ursula | - £500 |
| Cylch Meithrin Llangwyryfon | - £500 |
| Clwb Ffermwyr Ifanc | - £300 |
| Capel Tabor | - £200 |
| Capel Moreia | - £200 |
| Capel Bethel | - £200 |
| Eglwys Santes Ursula | - £200 |
| Clwb Croeso | - £150 |
| Pwyllgor y Fynwent | - £100 |

Unrhyw Fater Arall

Arwyddwyd ffurflen Risk Assessment a ffurflen Cytundeb Cyflogaeth y clerc.

Paratowyd ffurflen ad-daliad Treth ar Werth.

Codwyd mater o gyflwr y draeniau rhwng Maes yr Hâf a Chapel Bethel, a'r ffaith fod un ohonynt wedi cwympo i mewn, a gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Ffyrdd yn Aberaeron.

Trafodwyd eto ddull y banc o ddelio gyda chyfrifon ar-lein. Er nad oedd pawb yn cytuno gyda'r dull hwn, mae'n amlwg na ellid gwneud dim i'w newid o safbwynt y banc.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 17eg